Y Safonau ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2008-11 - Datganiad Blynyddol Gwynedd 2011

Fframwaith asesu ar gyfer awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru Ebrill 2008 – Mawrth 2011
Llywodraeth Cymru CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru

Enw'r awdurdod CYNGOR GWYNEDD

Mae'r Datganiad Blynyddol hwn wedi cael ei gadarnhau gan yr awdurdod cyn iddo gael ei gyflwyno i CyMAL

Ydyw [X] **Nac ydyw** [ ]

Os Ydyw, nodwch a dderbyniwyd y cadarnhad hwnnw gan

Aelod Portffolio [X]

Y Cyng. Alwyn Gruffydd Arwyddwyd …….. Dyddiad …….

Pennaeth Adran [X]

Gwenan Parry Arwyddwyd …… Dyddiad …….

Paratowyd yr Adroddiad gan
y Prif Lyfrgellydd

Hywel James Arwyddwyd …… Dyddiad …….

Y Safonau ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2008-11 - Datganiad Blynyddol Gwynedd 2011

1. Brosesau craffu'r awdurdod o safbwynt perfformiadau'r gwasanaeth llyfrgell yn dilyn yr asesiad o'r gwasanaeth a gwblhawyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dan y Trydydd fframwaith asesu ar gyfer 2008 - 11, ac a gyflwynwyd i bob awdurdod mewn llythyr adborth ym mis Medi 2009 gan Lywodraeth y Cynulliad.

Trefnwyd cyfarfod gyda'r Arweinydd Portffolio a'r Pennaeth Adran Gofal Cwsmer ar 11/10/10 yn benodol i'r Prif Lyfrgellydd cael cyflwyno a thrafod yr asesiad o sefyllfa'r Gwasanaeth Llyfrgell parthed y Safonau Llyfrgell. Rhoddwyd sylw arbennig i'r Dangosyddion Cynnydd a'r gymhariaeth ag awdurdodau eraill yng Nghymru. Trosglwyddwyd yr elfennau hynny lle mae angen gwella i broses Cynllunio Busnes y Cyngor ac yn cael eu cynnwys fel naill ai fel Gwelliannau neu Ddangosyddion yng Nghynllun Busnes yr Adran; mae'r rhain wedyn yn cael eu monitro yn rheolaidd gan yr Arweinydd Portffolio a gan y Prif Bwyllgor Craffu.

2. Pa benderfyniadau wnaeth yr awdurdod fel canlyniad i'r broses graffu oedd yn ceisio gwella safon y perfformiadau yng nghyd-destun Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a'r Dangosyddion Cynnydd ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru?

Unwaith eto derbyniwyd cefnogaeth yr Arweinydd Portffolio a Phennaeth Adran i gyflwyno cais refeniw am adnoddau ychwanegol i gynyddu lefel staffio'r gwasanaeth Llyfrgell yn dilyn sylw asesiad CyMAL oedd yn nodi " mewn yn agwedd allweddol - sef staffio, mae'r sefyllfa yn bur anfoddhaol ar hyn o bryd " . Mewn ymateb i'r dangosydd fod y nifer o aelodau wedi gostwng , cadarnhawyd yr angen i roi sylw cyson i'r Gwasanaeth Llyfrgell trwy ddulliau cyfathrebu'r Cyngor - Safle We'r Cyngor a 'Newyddion Gwynedd' (cylchlythyr chwarterol sydd yn cael ei ddosbarthu i bob aelwyd). Cytunwyd hefyd fod angen i'r Gwasanaeth Llyfrgell i baratoi cynllun hyrwyddo diwygiedig.

3. Pa weithredoedd a gytunwyd fel canlyniad i'r penderfyniadau hynny?

Paratowyd a gwrthodwyd cais am adnoddau refeniw i wella'r lefel staffio (cadarnhawyd y penderfyniad hynny yn Chwefror 2011) - ni dderbyniwyd rheswm penodol am hyn ar wahân i sefyllfa ariannol ddifrifol sy'n wynebu'r Cyngor. Mae'r Adran Gofal Cwsmer a'r Gwasanaeth Llyfrgell yn parhau i edrych ar ehangu rôl llyfrgelloedd o safbwynt darparu ystod ehangach o wasanaethau ac y gallasai helpu o ran lefelau staffio a hyfywdra llyfrgelloedd e.e. lleolwyd pwynt gwybodaeth twristiaeth a swyddfa gwasanaeth cofrestrydd yn Llyfrgell Tywyn . Cwblhawyd adolygiad manwl o lefelau staffio llyfrgelloedd a chytunwyd fod angen sicrhau trosglwyddo oriau staff pan mae cyfleodd yn codi i wneud hynny - mae'r gwaith hynny eisoes wedi digwydd yn achos dwy lyfrgell i geisio sicrhau lefel staffio fwy cytbwys sydd yn gallu ymateb i anghenion defnyddwyr. Sefydlwyd Grŵp Tasg Hyrwyddo'r Gwasanaeth a chytunwyd a gweithredwyd ar nifer o gynlluniau lleol yn ogystal â chefnogi'r gwaith cenedlaethol i farchnata llyfrgelloedd cyhoeddus.

4. **Os yw eich awdurdod wedi cychwyn arolwg *ffurfiol* o'r gwasanaethau llyfrgell yn ystod 2010 – 11, nodwch a yw'r arolwg hwnnw wedi'i gwblhau:**

Nac ydyw

Cynhaliwyd 'adolygiad o strwythur y gwasanaeth a'r defnydd o adeiladau a cherbydau' a gwblhawyd erbyn Ionawr 2011 - trafodwyd y canlyniadau gyda'r Arweinydd Portffolio a'r Pennaeth adran ar 27/1/11. Mae gweithredu ar rhai agweddau ar gynlluniau'r defnydd o adeiladau a cherbydau yn gysylltiedig â rhaglen arbedion y Cyngor ac angen dilyn y broses o gymeradwyo'r newidiadau hynny a gobeithir y bydd hyn wedi ei gwblhau erbyn Hydref 2011. Cyflwynir adolygiad o sefydliad a strwythur staffio'r Gwasanaeth Llyfrgell i geisio sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o'r staff presennol erbyn Hydref 2011 gan unwaith eto nodi'r lefel staffio isel ac effaith hyn ar allu'r gwasanaeth i gynnig yr ystod o wasanaethau sydd ar gael ac ar berfformiad cyflenwi'r gwasanaethau hynny .

Cwblhawyd gwaith y Gweithgor Gwella Treftadaeth a Chelfyddydau yn cynnwys edrych ar y cysylltiadau rhwng y Gwasanaethau Treftadaeth a Chelfyddydau (Archifau, Amgueddfeydd, Orielau a chelfyddydau eraill). Roedd adroddiad terfynol y Gweithgor Gwella yn cynnwys 'Blaenoriaethau'r dyfodol' ' gan gynnwys adran a'r 'Perthynas gyda'r Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth' .Ymhlith yr argymhellion nodwyd - 'y potensial i ddatblygu ymhellach y llyfrgelloedd fel mynedfa gyffredinol ar gyfer gwybodaeth archifol …'; y defnydd o staff y Gwasanaeth Archifau ar gyfer 'adolygu casgliadau hanes lleol a diweddaru eu cynnwys' ;' y defnydd o lyfrgelloedd fel 'canolfannau gwybodaeth leol ar gyfer 'hyrwyddo gweithgareddau celf gymunedol' ac y dylid edrych ar ddatblygu 'cerdyn aelodaeth ar y cyd i alluogi defnyddwyr i gael mynediad at adnoddau ychwanegol' . Gweithredir ar yr argymhellion hyn yn ystod 2011/12 ble mae adnoddau ac amser staff yn caniatáu.

	Safon Fframwaith 3	Perfformiad ar Fawrth 31 2011	Sylwadau
1	(i) Lle mae dwysedd y boblogaeth drigiannol yn 20 neu fwy yr hectar dylai'r awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus sicrhau fod canran yr anheddau sydd o fewn 2 filltir i lyfrgell sefydlog fod o leiaf yn 95% (ii) Lle mae dwysedd y boblogaeth drigiannol yn 19.9 neu lai o drigolion yr hectar, dylai'r awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus sicrhau fod canran yr anheddau sydd o fewn 2 filltir i lyfrgell sefydlog fod o leiaf yn 75% Pan fydd awdurdod yn cael anhawster cyrraedd y gofynion yn (ii), dylent hefyd adrodd ar nifer yr anheddau sydd o fewn chwarter milltir i bob arhosfan ar gylchdaith llyfrgell deithiol ac o fewn dwy filltir i unrhyw fan gwasanaeth o fath arall sy'n darparu mynediad i ddefnyddiau llyfrgell. Dylai'r gwasanaethau llyfrgell roi disgrifiad cryno o natur y ddarpariaeth yn y golofn Sylwadau.	D/B **65.5%** **35.4%**	Mae dwysedd poblogaeth drigiannol Gwynedd yn **0.5** yr hectar Dangosodd adroddiad manwl o 'fannau cyfeiriad' fod 65.5% o gyfeiriadau o fewn 2 filltir, 70.7% o fewn 2.5 milltir a 74.8% o fewn 3 milltir . (17 llyfrgell) Dangosodd yr arolwg hefyd fod 35.4% o gyfeiriadau o fewn chwarter milltir i arosfan llyfrgell deithiol. (4 cerbyd) .D.S. .*Mae rhai arosfannau teithiol o fewn 2 filltir i lyfrgell ar fap ond yn bellach i ffwrdd wrth ystyried pellter teithio yno.* Defnyddiwyd meddalwedd Arcmap (cwmni Arcview) gan Uned Ymchwil a Gwybodaeth y Cyngor.
2	(i) Bydd awdurdodau llyfrgell yn darparu mynediad i'r gwasanaeth i'r rhai nad ydynt yn medru defnyddio gwasanaeth confensiynol (ii) Bydd awdurdodau yn darparu cymorth, cyfleusterau a chyfarpar arbenigol ar gyfer y rhai ag anghenion mynediad arbennig yn neu drwy'r mannau gwasanaeth **Dylai'r gwasanaethau llyfrgell roi disgrifiad cryno o natur y ddarpariaeth yn y golofn Sylwadau**	✔ ✔	Darperir offer a meddalwedd arbennig ym mhob man gwasanaeth a hyfforddiant rheolaidd i staff ar faterion cydraddoldeb Darperir gwasanaeth i gartrefi henoed , a 'Gwasanaeth i'r Cartref' i'r rhai hyn sydd yn gaeth i'w tai a'u gofalwyr. Mae dau gerbyd pwrpasol , un yn gwasanaethu Gogledd Gwynedd, a'r llall De'r awdurdod. Y Gwasanaeth Llyfrgell sydd yn gyfrifol am ddarparu llyfrau i'r rhai hynny gyda 'Nam Gweledol' yn yr awdurdod.

Safon Fframwaith 3		Perfformiad ar Fawrth 31 2011	Sylwadau
3	(i) Bydd awdurdodau llyfrgell yn sicrhau y bydd cyfanswm yr oriau agor fesul 1,000 o drigolion ar gyfer y mannau gwasanaeth yn ddim llai na 136 awr y flwyddyn. Dylai'r awdurdodau sy'n cynnal 4 neu lai o fannau gwasanaeth sicrhau fod y cyfanswm fesul 1,000 o boblogaeth yn ddim llai na 120 awr y flwyddyn	**Nifer yr oriau** **201** **Nifer y mannau gwasanaeth** **21**	Dim newid yn y cyfanrif oriau agor o'r flwyddyn flaenorol Trosglwyddwyd dwy awr agor o un llyfrgell (Deiniolen) i un arall (Llanberis) i ymateb i anghenion y gwasanaeth. Prif reswm cau llyfrgelloedd am reswm brys oedd diffyg staff wrth law oedd yn gallu ymateb ar fyr rybudd i'r angen am gymorth i agor oherwydd salwch staff.
	(ii) Fe fydd yr oriau pan na fu hi'n bosibl agor y llyfrgelloedd am resymau brys yn ddim mwy na 1% o'r holl oriau arfaethedig.	**1.45%**	Eto cafwyd problemau difrifol oherwydd eira a rhew yn ystod gaeaf caled 2010/11. Bu'n rhaid cau nifer o lyfrgelloedd gan gynnwys rhai o'r mwyaf - Bangor / Blaenau - am ddiwrnodau ar y tro. Gan fod y cyfnod tywydd garw wedi ymestyn cyhyd bu'n rhaid i'r Cyngor blaenoriaethu graeanu'r priffyrdd gyda'r canlyniad fod rhai lonydd cefn gwlad yn beryglus am gyfnod hir.
	(iii) Fe fydd y nifer o alwadau gan lyfrgelloedd teithiol a gollir neu a ddiddymir yn ddim mwy na 2.5% o'r cyfanswm o'r galwadau arfaethedig mewn blwyddyn.	**4.5%**	Rhaniad oriau a gollwyd - llyfrgelloedd – tywydd garw 0.70%(150 awr) - salwch staff 0.75% (159 awr) Rhaniad oriau a gollwyd - teithiol – tywydd garw 3.3% (114 awr) - technegol /salwch gyrrwr 1.2% (42 awr)

	Safon Fframwaith 3	Perfformiad ar Fawrth 31 2011	Sylwadau
4	(i) Dylai awdurdodau sicrhau fod *y cyfleusterau* TGaCh canlynol ar gael • Defnyddio cyfrifiadur glin • Cyfarpar printio a sganio • Modd defnyddio cyfryngau cludadwy megis iPod, MP3 neu gamerâu digidol (cyswllt USB) • Meddalwedd Office ar gyfrifiaduron cyhoeddus • Gwasanaeth e-bost am ddim • Cefnogaeth i ddefnyddwyr • Cyngor ar lythrenogrwydd TGaCh (ii) Dylai awdurdodau sicrhau fod yr *adnoddau* TGaCh canlynol ar gael • Gwasanaeth gwybodaeth cyfeiriol a chyffredinol • Papurau newydd a ffynonellau cyfredol eraill ar-lein • Ffynonellau gwybodaeth gymunedol • Gwybodaeth hanes teulu a hanes lleol • Adnoddau a gwasanaeth e-ddysgu	Rhowch ✔ neu **X** gyfer pob un ✔ ✔ ✔ ✔ ✔ ✔ ✔ ✔ ✔ ✔ ✔ ✔	Sefydlwyd cyswllt Wi-Fi mynediad cyhoeddus yn Llyfrgell Tywyn ym Mawrth 2011, gyda grant CyMAL, yn dilyn gwaith ailwampio'r adeilad yno - mae cyswllt eisoes yn llyfrgelloedd Bangor a Chaernarfon. Mae pob aelod o staff llyfrgell wedi ei hyfforddi i gynorthwyo'r cyhoedd pan maent angen cymorth sylfaenol ac mae staff yn derbyn sesiynau rheolaidd i'w cyflwyno i'r adnoddau ar lein. Cyflogir Cydlynydd Dysgu Gydol Oes yn Arfon sydd yn cynnal sesiynau 'Camau cyntaf' mewn llyfrgelloedd ee Ancestry.com ac yn annog y defnydd o gyrsiau ar-lein Learndirect. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn arwain ar baratoi adnoddau ar lein leol ganlynol :- - Gwe Gymuned (cyfeiriadur cymdeithasau a chlybiau lleol) - Cyfarwyddiadur Busnesau Lleol - Cwrs i Mi Gwynedd (gwybodaeth am addysg gymunedol) Mae'r adnoddau ar lein yn cynnwys Encyclopaedia Britannica, Oxford Reference gan gynnwys Oxford English Dictionary, Dictionary of National Biography, Who's Who, Groves Art & Music, a Newsbank a Credo Reference (sydd yn cynnwys Welsh Academy Encyclopaedia of Wales) Sefydlwyd trefniant ymaelodi ar y cyd gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LLGC) , o fis Hydref 2009 , sydd yn caniatáu aelodau Gwynedd i gael mynediad at adnoddau ar lein LLGC o lyfrgelloedd Gwynedd ac o'u cartrefi .Ymaelododd 143 defnyddiwr newydd gyda LLGC yn ystod 2010/11. Sefydlwyd gwasanaeth lawr-lwytho Llyfrau Llafar ym Mehefin 2010 ar gyfer oedolion a phlant.

	Safon Fframwaith 3	Perfformiad ar Fawrth 31 2011	Sylwadau
5	(i)Dylai awdurdodau llyfrgelloedd gymharu'r cyfanswm o eitemau yn eu casgliadau fesul 1,000 o drigolion â'r canlynol **Chwartel uchaf y DG, sef 2124 eitem** **Meincnod Cymru, sef 1750 eitem** (ii) Dylai awdurdodau llyfrgelloedd gymharu'r cyfanswm o eitemau yn eu casgliadau ar gyfer y rhai dan 16 fesul 1,000 o drigolion â'r canlynol: **Chwartel uchaf y DG, sef 488 eitem** **Meincnod Cymru, sef 530 eitem**	Nifer o eitemau: **2293** Nifer o eitemau: **924**	Nid yw'r ffigwr yn cynnwys adnoddau ar lein. Heb gynnwys adnoddau mewn storfeydd , **sydd yn cynnwys nifer fawr o ddyblygiadau teitlau yn y Gymraeg**, saif y ffigyrau fel a ganlyn :- **Cyfanswm - 2008** Oedolion **1300** Plant **708**
6	(i) Dylai'r awdurdodau gymharu cyfanswm nifer yr eitemau a ychwanegir at y casgliadau yn flynyddol fesul 1,000 o boblogaeth gyda'r canlynol: **Chwartel uchaf y DG, sef 263 eitem** **Dengradd uchaf Cymru, sef 167 eitem** (ii) Dylai'r awdurdodau gymharu cyfanswm nifer yr eitemau a ychwanegir at y casgliadau ar gyfer y rhai dan 16 fesul 1,000 o boblogaeth gyda'r canlynol: **Chwartel uchaf y DG, sef 80 eitem** **Dengradd uchaf Cymru, sef 80 eitem**	**Nifer o eitemau:** **270** **Nifer o eitemau:** **100**	Parhaodd y buddsoddiad da yn stoc y Gwasanaeth i lefel priodol ar gyfer awdurdod gwledig gyda nifer uwch na'r cyfartaledd o fannau gwasanaeth i geisio cyflwyno gwasanaeth derbyniol i boblogaeth wasgaredig.

	Safon Fframwaith 3	Perfformiad ar Fawrth 31 2011	Sylwadau
7	(i) Bydd awdurdodau yn sicrhau y bydd adnewyddu yr holl stoc fenthyca ar gyfer oedolion yn cymeryd dim mwy na 7.6 mlynedd (ii) Bydd awdurdodau yn sicrhau y bydd adnewyddu yr holl stoc fenthyca ar gyfer y rhai dan 16 oed yn cymeryd dim mwy na 6 blynedd	Nifer o flynyddoedd **7.7** Nifer o flynyddoedd: **7.1**	Parhaodd y gwelliant ar berfformiad y flwyddyn flaenorol gydag adolygu stoc llyfrgelloedd unigol a'r gwaith o adnabod stoc sydd angen ei dynnu ochr yn ochr â blaenoriaethu stoc i ychwanegu. Defnyddir data datblygu stoc 'Nielsen' i adnabod stoc sydd angen ei adnewyddu ynghyd a defnydd o wybodaeth o'r System Reoli Llyfrgell 'Talis'. Un rheswm am y lefel trosiant is yng Ngwynedd yw'r pwyslais ar gynnig ystod eang o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion sydd yn golygu fod tueddiad i gadw llyfrau yn hirach.
8	(i) Dylai awdurdodau llyfrgelloedd Cymru gymharu eu gwariant blynyddol ar bryniant stoc (£ am bob 1,000 o drigolion) â'r ystod canlynol o wariant yn y Deyrnas Gyfunol **Chwartel isaf £1822** **Canolrif £2164** **Chwartel uchaf £2544** **ac** (ii) Fe ddylid sicrhau fod y gwariant ar bwrcasu stoc y flwyddyn fesul 1,000 o drigolion fod yn £2450 erbyn Mawrth 2011	Nodwch mewn **£ 2454**	Bu'n bosib cynyddu'r lefel gwariant trwy gwyro o danwariant cyllidebau eraill, manteisio ar grantiau ym maes plant cyn oed ysgol a thrwy sicrhau cronfa ddigonol hefyd yn arbennig ar gyfer papurau newydd a chylchgronau (yr olaf i geisio sicrhau ymweliadau mwy cyson gan aelodau i'r nifer o fannau gwasanaethau y disgwylir eu cynnal) Wrth gynllunio ar gyfer y tair blynedd 2008 -2011 nodwyd 'o gadw'r lefel o wariant presennol gyda chwyddiant fod posib cyrraedd yn agos at y nod'. Yn 2010/2011 bu modd sicrhau gwariant cronfeydd ar lefel y cynllun **sydd wedi cyrraedd y nod hynny erbyn Mawrth 2011 .**

	Safon Fframwaith 3	Perfformiad ar Fawrth 31 2011	Sylwadau
9	(i) Dylai awdurdodau sicrhau eu bod yn gwario **Neu** Isafswm o 4% o gyfanswm y gronfa bwrcasu ar brynu marchnata a hybu defnyddiau yn y Gymraeg ar gyfer oedolion a phlant dan 16 (ii) Dylai awdurdodau gymharu eu pryniant o lenyddiaeth Gymraeg yn Saesneg â'r rhestr a ddosberthir yn flynyddol. Dylid nodi % o'r teitlau ar y rhestr a brynir a chyfartaledd nifer y copïau a brynir	**14.2%*** **100%** o gyfrolau'r rhestr a brynwyd cyfartaledd nifer y copïau o bob teitl **4.7**	Arweiniodd Gwynedd ar y Cynlluniau Llyfrau Print Bras Cymraeg a Llyfrau Llafar Cymraeg i holl Awdurdodau Cymru . Profodd y gyfundrefn o archebu deunydd Cymraeg gan ddefnyddio archebu electroneg (EDI) mewn cydweithrediad a'r Cyngor Llyfrau a llyfrwerthwyr lleol yn un trwsgl a bu rhaid atal y trefniant hyd fydd uned TalNet yn defnyddio EDI yn llawn. (*Canran o'r gronfa pwrcasu llyfrau) Mewn cydweithrediad a'r Academi mae'r Gwasanaeth yn parhau i gynnal Cynllun Hyrwyddo Llenyddiaeth sydd yn rhoi sylw i ysgrifennu creadigol , sgwadiau sgwennu a chefnogwyd nifer o grwpiau a chlybiau darllen.
10	Bydd awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn sicrhau y byddant yn cyflenwi dim llai na (i) 67% o'r holl geisiadau am ddefnyddiau o fewn 7 niwrnod calendr (ii) 81% o fewn 15 niwrnod calendr (iii) 91% o fewn 30 niwrnod calendr o'r dyddiad pryd y derbyniwyd y cais i'r amser pryd y bydd ar gael i'w gasglu gan y defnyddiwr (Dylid cyfrif y ceisiadau o'r dyddiad pryd y byddant ar gael i'r llyfrgell i'w prynu, h.y., dylid hepgor y ceisiadau am lyfrau cyn iddynt gael eu cyhoeddi sy'n dal yn y system)	**62%** **85%** **95%**	Bu modd gwella ar y cyflymder o gyflenwi eitemau mewn 7, 15 a 30 diwrnod ond mae'r safon 7 diwrnod yn heriol iawn i awdurdod gwledig . **Dangosodd arolwg mewnol dros fis o gyflenwi eitemau mewn stoc (h.y. heb gynnwys eitemau sydd heb eu cyhoeddi a'r rhai benthycwyd o wasanaethau allanol) fod y Gwasanaeth yn cyflenwi 69% o geisiadau o fewn 7 diwrnod.** Yn dilyn cynnig ceisiadau am ddim i'r cyhoedd o Ebrill 2009 ymlaen gwelwyd cynnydd o 32% yn y nifer o geisiadau yn 2009//10 **a chynnydd o 16% (o 21,911 i 25,345) yn 2010/11.**Gweithredwyd ar argymhellion grŵp tasg ar y cyd gyda Chonwy ac Ynys Môn i ddadansoddi prosesau cyflenwi ceisiadau.

Safon Fframwaith 3		Perfformiad ar Fawrth 31 2011	Sylwadau
11	(i) Dylai awdurdodau Cymru gymharu eu lefelau staffio cyfan gyda'r Safon dangosol isod, sef y sefydliad staffio cyfan fesul pob 1,000 o drigolion yr awdurdod **Chwartel isaf 0.40** **Canolrif 0.43** **Chwartel uchaf 0.51** (ii) Dylai'r awdurdodau sicrhau fod o leiaf 26% o'r holl staff ar y sefydliad staff yn y llyfrgelloedd feddu cymhwyster ffurfiol mewn llyfrgellyddiaeth, gwyddor/astudiaethau gwybodaeth neu reoli gwybodaeth	Nodwch y ffigwr: **0.30** **22%**	*Mae'r ffigyrau a nodir yn cynnwys cyfran o staff TalNet - yr Uned Lyfryddol ar y cyd gydag awdurdodau Conwy a Môn . Nid yw'r ffigwr staff yn cynnwys cyflogaeth 'Hyfforddai Llyfrgellydd Proffesiynol' (2008 - 2011) fel rhan o raglen gorfforaethol* Cyflwynwyd cais i godi lefel staffio'r Gwasanaeth – parthed lleihau risg iechyd a diogelwch staff - gwrthodwyd y cais. Yn dilyn ymddeoliad Llyfrgellydd Gwybodaeth - Llyfrgell Dolgellau cymerwyd y cyfle i ddefnyddio'r cyllid ar gyfer y swydd i gryfhau'r lefel staffio cynorthwyol yn Llyfrgell Blaenau Ffestiniog . Hynny yn sgil sefydlu'r gwasanaeth gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor yno**,** sef 'Siop Gwynedd' . Yn dilyn ei gymhwyso fel llyfrgellydd lleolwyd yr Hyfforddai Llyfrgell yn rhannol yn Llyfrgell Dolgellau i sicrhau lefel o wasanaeth llyfrgellydd cymwysedig yn Ne Gwynedd.(Erbyn hyn – Mehefin 2011- penodwyd yr Hyfforddai yn barhaol i swydd Llyfrgell Gwasanaethau Gwybodaeth yn Nolgellau). *Llwyddodd y Gwasanaeth Llyfrgell eto , yn dilyn cyflwyno cais i'r cynllun corfforaethol am 'Hyfforddai Proffesiynol' , i dderbyn lleoliad hyfforddai am y cyfnod 2011 -2014 a phenodwyd 'Hyfforddai Llythrennedd Gwybodaeth' i ddechrau yn ei swydd ym mis Gorffennaf 2011.* Mae'r lefel staffio isel hyn yn parhau yn destun pryder .

	Safon Fframwaith 3	Perfformiad ar Fawrth 31 2011	Sylwadau
12	Gwariant ar adeiladau a mannau gwasanaeth eraill ac ar eu rheolaeth . Dylai awdurdodau dangos nodi:		**Adnewyddu Llyfrgell Tywyn £197,514.04** Awdurdod £77,514.04 Grant CyMAL £120,000 ('Llyfrgelloedd Addysg Gymunedol')
	(i) nodi'r gwariant yn y flwyddyn o (a) gyllid yr awdurdod (b) o adnoddau allanol	**£101,953.27£ 120,000**	**Gwella Llyfrgell Cricieth £ 24,439.23** Yn dilyn gwrthod cais Gwynedd i CyMAL ar gyfer ail - wampio y llyfrgell hon aed ati i wella rhai agweddau o'r ddarpariaeth yno, hyn gyda chymorth cronfeydd cynnal a chadw a hygyrchedd yr awdurdod.
	(ii) eu bod wedi cynnal arolwg o gyflwr yr adeiladau/arolwg o asedion/ cydymffurfiaeth â gofynion yr anabl a'u bod yn bwriadu cynnal gwerthusiad mewnol o'r adroddiadau hynny unwaith o fewn y tair blynedd	✔ **Blynyddol***	Mae anghenion llyfrgelloedd wedi ei nodi fel rhan o Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor . Mae'r cynllun wedi ei fabwysiadu yn llawn gan y Cyngor.
	(iii) eu bod wedi cymharu cyfanswm y gofod - mannau gwasanaeth o bob math sydd o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth, â'r Safon dengradd Cymreig, sef 27 metr sgwâr ar gyfer pob 1,000 o drigolion	**31.7 m^2**	Bu'n bosib ychwanegu tua 50 m^2 yn Llyfrgell Tywyn trwy ehangu'r adran gyfrifiaduron ac ychwanegu man cyfarfod / arddangos.
	(iv) unrhyw wariant cyfalaf arall a wnaed yn ystod y flwyddyn nad yw'n wariant ar yr adeiladwaith	**£4360**	Adnewyddir offer cyfrifiadurol staff, offer TGaCh mynediad cyhoeddus a chyfrifiaduron glinfwrdd ar fenthyg, fel rhan o raglen gynlluniedig y Cyngor - 3 cyfrifiadur i'r cyhoedd a 4 i staff yn 2010/11

	Safon Fframwaith 3	Perfformiad ar Fawrth 31 2011	Sylwadau
13*	(i) Bydd awdurdodau llyfrgelloedd Cymru yn darganfod y % o'r trigolion sy'n 'fodlon' neu'n 'fodlon iawn' â'r gwasanaeth llyfrgell Bydd awdurdodau llyfrgelloedd Cymru yn darganfod pa % o ddefnyddwyr llyfrgell sy'n 'fodlon' neu'n 'fodlon iawn' â'r gwasanaeth llyfrgell	**70%** **97.9.%**	Arolwg Trigolion Gwynedd gan Ipsos/MORI - Ebrill i Fehefin 2009 - atebodd 1339 o drigolion holwyd Roedd y lefel bodlonrwydd ymysg yr uchaf o wasanaetha'r Cyngor gyda 58% yn nodi defnydd o fewn y flwyddyn holwyd. Arolwg PLUS Plant Hydref 2009 **99.8%** Arolwg PLUS Oedolion Mawrth 2010 **96%**
14**	(i) Bydd awdurdodau llyfrgelloedd Cymru yn gweithredu'r rhestr o Hawliau'r Dinesydd yn unol â'r cytundeb â CLlLC • Aelodaeth am ddim • Mynediad am ddim i lyfrau • Mynediad am ddim i'r Rhyngrwyd ac adnoddau cyfrifiadurol • Darparu mynediad i wasanaethau gwybodaeth ar-lein am ddim • Medru rhoi llyfrau ar gadw am ddim • Darparu'r gallu i fenthyca adnoddau o unrhyw le yng Nghymru a'u dychwelyd i unrhyw le yng Nghymru • Darparu cymorth ar gyfer defnyddwyr gan staff • Dileu yr holl ddirwyon a chostau ar blant dan 15 (ii) Dylai pob awdurdod llyfrgell nodi eu cyfraniad i weithgarwch fframwaith y Partneriaethau Cydweithio Rhanbarthol ac i bartneriaethau lleol eraill	Rhowch ✔ neu **X** ar gyfer pob un ✔ ✔ ✔ ✔ ✔ ✔ ✔ ✔ ✔	(i) Gweithredwyd yn llawn ar yr hawl ' medru rhoi llyfrau ar gadw am ddim' o *Ebrill 2009* yn unol â'r cytundeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) . Cytunodd Gwasanaethau Llyfrgelloedd Gogledd Cymru i weithredu 'darparu'r gallu i fenthyca adnoddau o unrhyw le a dychwelyd i unrhyw lyfrgell yn y Gogledd o Ebrill 2010. (ii) Trwy aelodaeth o Bartneriaeth Llyfrgelloedd Gogledd Cymru mae'r gwasanaeth yn cymryd rhan lawn yn weithgareddau cydweithredol gan gynnwys LINC , Estyn Allan a Grŵp Hyfforddiant Gogledd Cymru. Mae staff Gwynedd yn cyfrannu yn weithredol at ddatblygiad y Bartneriaeth Ranbarthol a hefyd i bartneriaeth TalNet - Uned Lyfryddol Gogledd Orllewin Cymru , sydd yn gynnwys rhannu system rheoli llyfrgell a gwasanaeth catalog ar- lein gyda Choleg Addysg Bellach Llandrillo (sydd bellach yn cynnwys Coleg Meirion Dwyfor) a Choleg Menai .

Dangosyddion Cynnydd ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (DCLlCC)

Dangosydd Cynnydd (DCLlCC))		Perfformiad ar Fawrth 31 2011	Sylwadau
1	Y nifer o aelodau cofrestredig fesul 1,000 o drigolion yn y flwyddyn dan sylw	Nifer fesul 1,000 poblogaeth: **252**	Bu cynnydd yn y nifer o ' ddarllenwyr cofrestredig' defnyddiodd y gwasanaeth o fewn y 6 mis blaenorol . Cafwyd un o'r cyfnodau haf prysuraf ers deng mlynedd ond er gwaethaf ymdrechion y Grŵp Tasg Hyrwyddo roedd y cyfnod 6 mis Medi 2010 - Mawrth 2011 yn cynnwys y gaeaf caled iawn unwaith eto .
2	(i) Y nifer o bobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o drigolion (ii) Y nifer wnaeth fynychu gweithgareddau a digwyddiadau a drefnwyd gan y gwasanaeth llyfrgell yn y mannau gwasanaeth neu ddigwyddiadau a gweithgareddau mewn mannau eraill o fewn yr awdurdod fesul 1,000 o drigolion	Nifer fesul 1,000 poblogaeth: **5060** **3887 (**ffisegol) **1173** (rhithiol) Nifer fesul 1,000 poblogaeth: **71.3***	Bu cynnydd da yn nifer o ymweliadau ffisegol a rhithiol. Rhoddwyd sylw arbennig i hybu llyfrgell Bangor ac agorwyd Llyfrgell Tywyn ar ei newydd wedd. Bu cynnydd yn yr ymweliadau i nifer o'r agweddau ddarpariaeth ar lein y Gwasanaeth o ganlyniad i waith hybu yn arbennig Ancestry.com ac Encyclopaedia Britannica ond hefyd trwy gynnig gwasanaeth lawr-lwytho Llyfrau Llafar. Bu cydweithrediad da gyda Chynllun Hyrwyddo Llenyddiaeth Gwynedd. Eleni trefnwyd grwpiau darllen Lles ac Iechyd llwyddiannus gyda Chanolfan Tŷ Newydd yn Nwyfor a bwriedir lledaenu trwy Wynedd . Parhawyd i gyflogi Hyrwyddwr Llyfrgelloedd Cynorthwyol bu modd cynyddu'r nifer o weithgareddau, ac o ganlyniad y cyfanrif mynychodd gweithgareddau (*mae'r ffigwr yn cynnwys 2000 cymerodd ran yn y Sialens darllen Haf).Cynhaliwyd Clybiau Darllen yn llyfrgelloedd Caernarfon a Bangor ac Oriau Stori reolaidd yn nifer o lyfrgelloedd a sesiynau mewn cydweithrediad a Chynllun Sgiliau Sylfaenol Dechrau'n Deg .
3*	(i)Y % o ddefnyddwyr ymhlith oedolion sy'n credu fod yr oriau agor yn 'dda iawn' neu'n 'dda' (ii) Y % o ddefnyddwyr dan 16 oed sy'n credu fod y llyfrgell ar agor 'pan ddymunaf ymweld/ei defnyddio'	**90%** **96.4%**	Arolwg PLUS Oedolion Mawrth 2010 Arolwg PLUS Plant Hydref 2009

	Dangosyddion cynnydd (DCLICC)	Perfformiad ar Fawrth 31 2011	Sylwadau
4	(i) Cyfanswm y gweithfannau ag iddynt gyswllt â'r Rhyngrwyd ac i gatalog ar-lein y gwasanaeth, fesul 10,000 poblogaeth (meincnod y ddarpariaeth yw 7)	Nifer fesul 10,000 poblogaeth: **9.0**	Ychwanegwyd at y nifer o gyfrifiaduron sydd ar gael i'r cyhoedd yn Llyfrgell Tywyn fel rhan o'r ailwampio yno.
	(ii) Y % o'r amser a neilltuwyd ar gyfer defnydd gan y cyhoedd o'r cyfrifiaduron personol cyhoeddus gafodd ei ddefnyddio	**37%**	Gwelodd 2010/11 cyfanrif sesiynau yn aros yn sefydlog yn dilyn tueddiad yn ddiweddar o weld gostyngiad - gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o sesiynau Wi Fi ym Mangor a Chaernarfon .
5	(i) Nifer y benthyciadau yn y flwyddyn fesul 1,000 poblogaeth	Nifer fesul 1,000 poblogaeth **5374**	. Gwelodd 2010/11 cynnydd er gwaethaf sgil effeithiau'r tywydd garw . Cyfrannodd llyfrgell Bangor yn sylweddol at y cynnydd yn nifer o fenthyciadau a pharhaodd y tueddiad o lai o fenthyg o'r llyfrgelloedd lleiaf a'r llyfrgelloedd teithiol.
	(ii) Y % o'r stoc sydd ar gael ar gyfer ei fenthyg sydd ar fenthyg ar ddiwrnod cyfrifo yn ystod mis Mawrth	**21.6%**	
6*	(i) Y % o oedolion sy'n ddefnyddwyr sy'n datgan fod y dewis o lyfrau sydd ar gael yn 'dda iawn', yn 'dda' neu'n 'ddigonol'	**100%**	Arolwg PLUS Oedolion Mawrth 2010
	(ii) Y % o ddefnyddwyr dan 16 oed sy'n credu fod y dewis o lyfrau yn y llyfrgell yn 'dda' neu'n 'oce'	**99.8%**	Arolwg PLUS Plant Hydref 2009

	Dangosyddion Cynnydd (DCLICC)	Perfformiad ar Fawrth 31 2011	Sylwadau
7	Y % o holl wariant awdurdod ar y gwasanaeth llyfrgell sy'n cael ei wario'n flynyddol ar brynu llyfrau ac eitemau eraill ymhob fformat ar gyfer eu defnyddio neu eu benthyca	**15.27%**	Gwariant ar adnoddau llyfrgell 2010/11 = £290810.48 Holl wariant refeniw 2010/11 = £1,903,262* (* heb gynnwys gwariant £43,271 ar lyfrau Cynllun Llyfrau Presgripsiwn – Gwynedd yn gweithredu ar ran Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru i adnewyddu teitlau'r cynllun .)
8	Y % o holl wariant refeniw'r awdurdod a werir ar y gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus	**0.87%**	Gwariant Refeniw Cyngor Gwynedd 2010/11 = £219,151,280* (*Amcan Llyfr Cyllideb y Cyngor)
9	(i) Y gwariant ar ddatblygiad a hyfforddi staff fesul pob aelod o staff **a hefyd** (ii) Y gwariant ar Ysgoloriaethau arweinyddiaeth Ysgoloriaethau cymhwyster MSc neu BSc Ysgoloriaethau Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol a Diploma ICTL Hyfforddiant y consortiwm hyfforddiant rhanbarthol perthnasol	**£1403** (seiliedig ar 32 fte heb gynnwys staff TalNet) amcan £825 amcan £4980 £0. Cyfran o ffigwr (i) uchod	Cynhelir rhaglen hyfforddiant corfforaethol gan Gyngor Gwynedd sydd yn cynnwys elfennau statudol megis Iechyd a Diogelwch (ee Codi a chario, Tân , Asesu Risg) a Chydraddoldeb. *Cwblhaodd mwyafrif o reolwyr y Gwasanaeth cwrs ILM rheolaeth yn ystod y flwyddyn* .Mae cynllun 'Adolygiad Perfformiad' yn weithredol ar gyfer pob aelod o staff sydd yn cynnwys adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddiant a datblygu. Dechreuodd aelod o Dîm Rheoli'r Gwasanaeth ymchwilio yn 2009 (gyda chefnogaeth ysgoloriaeth arweinyddiaeth) a pharhaodd ei waith ymchwil yn ystod 2010/11.Defnyddiwyd tystiolaeth o'r ymchwil i hysbysu gwaith Grŵp Tasg y Gwasanaeth Llyfrgell ar y Gwasanaeth Cyfeiriol a Gwybodaeth i'r cyhoedd trwy lyfrgelloedd. Llwyddodd yr Hyfforddai Llyfrgell i dderbyn Diploma mewn Llyfrgellyddiaeth ac mae'n parhau i gwblhau ei draethawd MSc. yn Adran Astudiaethau Gwybodaeth Prifysgol Aberystwyth . Mae ei ymchwil ar bwnc fydd yn gymorth i'r Gwasanaeth sef 'cyfraniad llyfrgelloedd cyhoeddus i addysg gymunedol'. Mynychodd staff y Gwasanaeth sesiynau trefnwyd gan Grŵp Hyfforddiant Llyfrgelloedd Gogledd Cymru a neilltuwyd amser staff yn arbennig ar gyfer Hyfforddiant Datblygu Darllenwyr **'Frontline'** (Estyn Allan Gogledd Cymru) gyda'r mwyafrif o'r staff bellach wedi cwblhau'r cyfan neu o leiaf y modiwlau craidd.

Dangosyddion Cynnydd (DCLlCC)		Perfformiad ar Fawrth 31 2011	Sylwadau
10	Y % o ddyraniad gwariant cyfalaf yr awdurdod a wariwyd ar wasanaethau llyfrgell cyhoeddus yn y flwyddyn hon	**0.57%**	Gwariant cyfalaf ar y gwasanaeth llyfrgell 2010/11 = £226,313.27 Yn cynnwys £120,000 grantiau Amcan y gwariant cyfalaf y Cyngor 2010/11 = £39,209,880* (* amcan Llyfr Cyllideb y Cyngor)
11*	Y % o'r holl ddefnyddwyr sy'n credu fod dylunwaith a diwyg yr adeilad neu'r llyfrgell deithiol y maent yn ei ddefnyddio yn cynnig amgylchedd deniadol	**96.6%**	Arolwg PLUS Oedolion Mawrth 2010 (96% / 99% : **97.5%**) Arolwg PLUS Plant Hydref 2009 (95.1/96.4 : **95.7%**)
12*	(i) Y % o oedolion sy'n credu fod y cyfarpar cyfrifiadurol a ddarperir gan y gwasanaeth llyfrgell yn 'dda iawn', yn 'dda', neu'n 'ddigonol'	**99%**	Arolwg PLUS Oedolion Mawrth 2010
	(ii) Y % o ddefnyddwyr dan 16 sy'n credu fod y cyfarpar cyfrifiadurol a ddarperir gan y gwasanaeth llyfrgell yn 'dda' neu'n 'oce'	**98.8%**	Arolwg PLUS Plant Hydref 2009
13	Y gwariant net ar y ddarpariaeth llyfrgell gyhoeddus fesul 1,000 o drigolion	**£16,025**	Gwariant 2010/11= £1,903,262* Poblogaeth 118,767